

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD (ARAC)
FESTIVAL 2022 LTD TRWY GYNHADLEDD FIDEO DDYDD MAWRTH 6 RHAGFYR 2022,
09:00 – 10:30**

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")
(y "Rhaglen" ac "UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU")

Yn bresennol:

Faraz Tasnim (FT)
Roger Lewis (RL)

Cadeirydd ARAC, Cyfarwyddwr Anweithredol
Cyfarwyddwr Anweithredol yn cynrychioli Cymru

Arsylwyr yn bresennol:

Greg Wilson (GW)
Daniel Coles (DC)

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Yr Adran dros Ddiwylliant Digidol, y Cyfryngau a Chwaraeon
("DCMS")
PwC

Adam Richards (AR)

Hefyd yn bresennol:

Phil Batty (PB)
Caroline McGrory (CMcG)
David Grady (DG)
Sarah Tromans (ST)
Jack Spooner (JS)
Ruth Marshall (RM)
Lucy Bailey (LB)
Laura O'Donnell (LO'D)
Laura O'Flynn (LO'F)

Prif Swyddog Gweithredu
Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni
Prif Swyddog Cyllid
Cyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol a Rheoli Contractau
Uwch Reolwr Cyllid
Pennaeth PMO a Sicrwydd
Cyfarwyddwr y Prosiect
Rheolwr Cynorthwyol y Prosiect
Pennaeth Llywodraethu a Diddymu (Cymryd nodiadau)

58/22 Croeso a diben y cyfarfod

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd yr agenda. Cafwyd ymddiheuriadau gan Amali de Alwis, Liam Hannaway ac Alison Breadon yn PwC.

Rhoddodd PB yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyhoeddi adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

59/22 Cymeradwyo'r cofnodion a materion sy'n codi

Rhoddodd y Cadeirydd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi a nododd nad oedd unrhyw gamau gweithredu'n weddill.

Bydd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022 yn cael eu cymeradwyo drwy ohebiaeth, ochr yn ochr â chofnodion y cyfarfod heddiw.

60/22 Cyflwyno Adroddiad a Datganiadau Ariannol Festival 2022

Cyflwynodd JS y papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen) gan dynnu sylw at y ffaith ein bod mewn sefyllfa i argymhell y gyfres derfynol o gyfrifon ar gyfer y Bwrdd yr wythnos hon a chyfeiriodd at gopi terfynol y cyfrifon blyneddol.

Nododd JS mai'r unig newid allweddol yw paragraff ychwanegol, wedi'i ddrafftio gan y Tîm Gweithredol, ynglŷn ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n cyfeirio at y cyhoeddiad. Nid yw'r rhifau wedi newid o'r cyfarfod ar 15 Tachwedd. Ar hyn o bryd, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cwblhau'r adroddiad allanol, felly yn aros am gadarnhad bod yr ymatebion gan y Comisiynau'n iawn.

Holodd y Cadeirydd a oedd y newidiadau wedi'u cynnwys yn y rhagair. Cadarnhaodd JS fod y diwygiadau'n fân sef gwallau teipio a chyfochri negeseuon allweddol.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn rhan o hyn a rhoddodd ddiolch am y canlyniadau.

61/22 Adroddiad Cwblhau Archwiliad Allanol a Llythyr Sylwadau

Cyflwynodd GW y papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen) a rhoddodd wybod nad oes dim byd sylweddol wedi newid. O safbwynt y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, mae modd rhoi sicrwydd bod yr archwiliad wedi symud ymlaen, ac roedd y rhan derfynol yn ymwneud ag adolygu ymatebion y comisiynau. Yn amodol ar y cysoni, mae'r holl waith archwilio wedi'i gwblhau, gan gynnwys profi'r gwariant, ac nid oes unrhyw beth i'w ddwyn at sylw'r Pwyllgor. Mae ansawdd y papurau wedi cefnogi a diolch i'r tîm am eu mewnbwn.

62/22 Argymhelliad i'r Bwrdd ar yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol

Cyflwynodd CMcG y papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen) a rhestrodd yr argymhellion gan hynny, y gofynnir i'r Pwyllgor :

- argymell yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol i'w cymeradwyo gan y Bwrdd sydd wedi'i drefnu ar gyfer 8fed Rhagfyr 2022
- argymell cymeradwyo'r Llythyr Sylwadau i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.

PENDERFYNWYD NAD OEDD GAN Y CYFARFOD HWN GWORWM.

Darparodd yr ARAC gymeradwyaeth amodol yn ddibynnol ar gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan o leiaf naill ai LH neu AdA yn ogystal â'r gymeradwyaeth a dderbyniwyd gan y ddau aelod yn y cyfarfod.

63/22 Adroddiad Cryno'r Archwiliad Mewnol

Cyflwynodd CMcG y papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen). Dywedodd AR ei fod wedi cymryd cam gweithredu gan y Pwyllgor ar 15 Tachwedd i ddarparu adroddiad cryno o'r holl archwiliadau mewnol o'r cynllun oes. Nid oes unrhyw gamau gweithredu a dim gwaith arall i PwC.

Nododd yr ARAC gynnwys y papur. Teimlodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig cwblhau a derbyn y pethau da a ddysgwyd er mwyn caniatáu i'r DCMS eu dal fel cofnod ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnwys hyn fel atodiad i'r Bwrdd i roi tystiolaeth bod gwaith fel hwn yn ysgogi a chefnogi gweithgarwch fel adroddiad Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

64/22 Arsylwadau Archwilio Mewnol: Yr wybodaeth ddiweddaraf ar gamau gweithredu

Cyflwynodd LO'F y papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen) a nododd bod camau gweithredu sy'n parhau wedi'u nodi yng nghynllun y prosiect diddymu. Nododd yr ARAC gynnwys y papur.

65/22 Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd eitemau 'Unrhyw Fater Arall'. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.

Cau'r Cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 09:30. Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf, sef



CREATIVITY IN THE UK

yr olaf, ar 25 Ionawr 2023, yn rhithwir.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir fel arall:

Cyfarwyddwyr ARAC

Arsylwyr ARAC

Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad yr anfonwyd at y Cadeirydd: 7 Rhagfyr 2022

Dyddiad y dychwelyd at y Gweinyddwr: 9 Rhagfyr 2022

Dyddiad dosbarthu: 20 Rhagfyr 2022